Teitl y Swydd: Rheolwr Perfformiad Rygbi Dynion

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 5A/B

HERA: CMETS137

Prif bwrpas y rôl

Bydd Rheolwr Perfformiad Rygbi Dynion yn arwain ac yn rheoli gweithrediadau dyddiol y rhaglen berfformiad i ddynion, gan gynnwys gweinyddiaeth, cyllid a gweithrediadau. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio a chyflawni ar sail flynyddol, gan ymestyn i weithrediadau a gweithlu sy'n ymwneud â hyfforddiant a diwrnodau gêm. Mae'r Rhaglen Berfformiad i Ddynion yn canolbwyntio ar 'BUCS Super Rugby' a Phencampwriaeth yr WRU.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Arwain a rheoli gweithrediadau dyddiol y rhaglenni perfformiad rygbi gan gynnwys gweinyddiaeth, archebion, logisteg, cyllid a gweithrediadau'r rhaglen hyfforddi a chystadlu.
- Sicrhau bod y clwb yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol, gan gynnwys rhai gan gyrff llywodraethu fel Undeb Rygbi Cymru a BUCS.
- Arwain yr archwiliad blynyddol a chyflawniad 'MoS' ar gyfer BUCS ac unrhyw ofynion eraill.
- Ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar draws y brifysgol fel Tîm Gweithrediadau Chwaraeon Met Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr i adeiladu prosesau clir i gefnogi gweithrediadau dyddiol.
- Gweithio gyda'r pwyllgorau a staff yr adran i reoli gwariant gweithredol.
- Cefnogi aelodau eraill o'r tîm, cyflogedig a gwirfoddol, i gydlynu a sicrhau bod cysylltiad rhwng y rhaglenni perfformiad a'r clwb ehangach.
- Gweithio gyda'r Tîm Datblygu Busnes a marchnata canolog i hyrwyddo'r clwb trwy wahanol sianeli, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.
- Datblygu a defnyddio gweithlu myfyrwyr a gwirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi gweithrediad y rhaglenni perfformiad i gynnwys lleoliadau myfyrwyr, rheolwyr tîm ac eraill.
- Rheoli ac arwain ar gasglu a storio data recriwtio, gan gydymffurfio â diogelu data a GDPR.
- Gweithredu digwyddiadau a mentrau recriwtio allweddol fel Diwrnodau Profiad Rygbi, Gwersylloedd Perfformiad Myfyrwyr Newydd a chronfeydd data recriwtio.
- Cydlynu archebu a rheoli cit ar gyfer chwaraewyr a staff gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Arwain gweinyddiaeth a gweithrediadau gemau ar gyfer rhaglen berfformiad y dynion, gan gysylltu â'r gwrthwynebwyr i gadarnhau amseroedd cychwyn, cytuno ar

aildrefniadau a gohiriadau, gan sicrhau bod yr holl gludiant, cyfleusterau ac archebion cysylltiedig eraill yn cael eu diweddaru yn unol â hynny.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol

- Gradd neu NVQ perthnasol neu cyfatebol.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad profedig mewn rôl weithredol o fewn clwb neu sefydliad chwaraeon.
2. Profiad o waith gweinyddol a logistaidd.
3. Profiad o weithredu yn ôl prosesau archwilio, trwyddedu neu safonau gofynnol.
4. Gwybodaeth am weithdrefnau a phrosesau iechyd a diogelwch.
5. Sgiliau rheoli cyllideb a chyllid.
6. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol eithriadol.
7. Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cryf o fewn ystod eang o rhanddeiliaid allweddol.
8. Y gallu i berfformio o dan bwysau.
9. Y gallu i gysylltu anghenion perfformiad chwaraeon â chyflenwi a chynllunio gweithredol.

Dymunol

1. Profiad o weithio o fewn chwaraeon perfformiad.
2. Profiad o weithio o fewn rygbi.
3. Profiad o weithio o fewn prifysgol.

Gofynion sgiliau Cymraeg
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol/ Hanfodol	Dymunol	Dymunol	Dymunol Hanfodol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.